# Cyngor Cymuned Llandwrog – Adroddiad Blynyddol 2025-26

CYNGOR CYMUNED
LLANDWROG

www.cyngorcymunedllandwrog.cymru

# Cynnwys


1) Gair gan y Cadeirydd
2) Terynged i Cynghorydd Alun Wyn Jones
3) Gwaith yn ein Pentrefi a Cefnogi'r Gymuned
4) Rhoddion Ariannol i Fudiadau Gwirfoddol
5) Rheoli Eiddo'r Cyngor
6) Bioamrywiaeth a Tiroedd Comin
7) Gweinyddiaeth a Llywodraethu
8) Pwyllgorau'r Cyngor
9) Cynrychioli 'r Gymuned
10) Ymgysylltu Gyda'r Gymuned
11) Ceisiadau Cynllunio
12) Ystadegau
13) Sefyllfa Ariannol
14) Rhaglen Waith 2026/27
15) Lwfansau Aelodau
16) Cynllun Hyfforddiant Aelodau a Staff
17) Pwy di Pwy - Eich Cynrychiolwyr a Staff y Cyngor

# Gair gan y Cadeirydd,

# y Cynghorydd Gwyn Owen Jones



. Unwaith yn rhagor mae'n bleser gennyf yma gael cyflwyno adroddiad gan y Cyngor am y gwaith a'r gweinyddiaeth yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.

Ni allaf sôn am ddim heb yn gyntaf grybwyll i hon fod wedi bod yn flwyddyn anodd i ni gyd gyda cholli aelod blaenllaw a gweithgar, a'n ffrind yn Y Groeslon – Alun Wyn Jones, ac mae teyrnged iddo yn yr adroddiad yma.  Dwi yn siŵr y bydd gweld ei golli yn y gymuned fel aelod o'r Cyngor a ffrind.

Ond mae gwaith y Cyngor yn parhau, ac  ym mis Ionawr, yn ein cyfarfod cyntaf yn ystafell gymunedol (Y Stabl) yn Tŷ'n Llan, croesawyd dwy aelod newydd i gynrychioli  Y Groeslon, mam a merch, Vicky a Emily Birch, a dwi'n siŵr y byddant yn llenwi unrhyw wagle a adawyd, ac y byddant aelodau gweithgar dros Y Groeslon.

Mae wedi bod yn flwyddyn brysur eto i geisio gwella ein ardal er lles y trigolion, a hoffwn gymryd y cyfle yma hefyd i ddiolch i'r holl wirfoddolwyr o fewn y mudiadau a grwpiau lleol sy'n gwneud gwaith rhagorol yn ei cymuned, a balch ydi'r Cyngor o allu eu cefnogi lle yr ydym yn gallu.

Yn ogystal eleni mae gwaith a fforwm yn ymwneud a hybu bioamrywiaeth yn bwrw ymlaen dan arweiniad y Cynghorydd Sion Hywyn Griffiths, ac yr ydym fel Cyngor yn ddiolchgar iddo am ei arweiniad. Ymysg digwyddiadau eraill sefydlwyd perllan gymunedol yn Carmel gyda grant gan Gyngor Gwynedd, a bydd y berllan yn cael ei redeg gan drigolion Carmel.

Cafwyd grant pellach hefyd gan Gyngor Gwynedd i adnewyddu lloches bws yn Carmel ac yn ogystal bu heriau pellach gyda'r angen i wneud gwaith cynnal a thrwsio annisgwyl i loches arall yn top lon Bwlan, a hefyd i wal ym mynwent Bryn'rodyn.

Hefyd ym mis Chwefror fe alwodd y Cyngor Gyfarfod Cyhoeddus ar gais rhai trigolion Y Groeslon er mwyn cael lleisio barn a'r ymgynghoriad cyn ymgeisio  datblygu tir ger Sgwar Y Groeslon. Roedd hyn yn gyfle i'r Cyngor dderbyn barn a sylwadau trigolion er mwyn llunio a penderfynu ar farn ffurfiol ynghylch y datblygiad.

Cymeraf y cyfle yma felly hefyd i ddiolch i'n Clerc a Swyddog Ariannol, David Roberts, sy'n gwneud gwaith y Cyngor fod yn rhedeg yn llyfn.  Hefyd diolch i Ann Llwyd am eu gwaith cyfieithu yn ein cyfarfodydd ers beth amser bellach, ac  yn olaf diolch i'r aelodau eu hunain, a'n dau Gynghorydd Sir, am eu presenoldeb a'u cyfraniad i'r gwaith. Dymunaf yn dda i'r Cadeirydd newydd am y flwyddyn sydd i ddod.

# Teyrnged i'r Cyng. Alun Wyn Jones



Gyda thristwch mawr y nodwyd farwolaeth y Cynghorydd Alun Wyn Jones ar 29 Awst 2025. Bu'n aelod ffyddlon o'r Cyngor Cymuned ers 1986, gan wasanaethu'n ddiwyd a chydwybodol dros bedwar degawd wrth gynrychioli ward Groeslon.

Yn ystod ei gyfnod hir ar y Cyngor, roedd Alun yn adnabyddus am ei ymroddiad di-flino i'w gymuned, ei onestrwydd, a'i barodrwydd i wrando ar bryderon trigolion. Roedd yn ffrind i bawb ac yn meddu ar brofiad helaeth o weithio ym maes Llywodraeth Leol, a defnyddiodd y profiad hwnnw'n effeithiol er budd y gymuned.

Roedd ganddo ddealltwriaeth ddofn o anghenion lleol, ac fe weithiodd yn ddi-baid i hyrwyddo lles y gymuned a gwarchod ei buddiannau. Roedd ei gyfraniad wedi ymestyn ymhell y tu hwnt i'r cyfarfodydd ffurfiol, gan ei fod wedi bod yn gefnogaeth gadarn i nifer o fentrau cymunedol dros y blynyddoedd.

Bydd colli ei bresenoldeb a'i ddoethineb yn fawr.

Ar ran y Cyngor Cymuned, estynnwyd cydymdeimlad dwysaf â'i deulu a'i ffrindiau yn eu colled fawr.

Bydd cof am ei wasanaeth hir a'i ymroddiad yn parhau'n ysbrydoliaeth i bawb.

# Gwaith yn Ein Pentrefi a Cefnogi'r Gymuned

| Mis | Materion a Drafodwyd **Carmel** |
|---|---|
| Mai | Arolygiad cyflwr cofebfeini Mynwent Carmel; Gordyfiant mieri Maes Hyfryd; llwybr mynwent Carmel ; Cysgodfa bws Penbwlch; Ffensio Cae Peldroed ; |
| Mehefin | Cynllun Y Fasged Fwyd y Neuadd; Cysgodfa bws Penbwlch; Cyflwr Lon Cilgwyn; Gwasanaeth Torri Gwair Cyngor Gwynedd |
| Gorffennaf | Cysgodfa bws Penbwlch; |
| Medi | Cyflwr Llwybr o Capel Bryn i Stesion Bryngwyn; Mynediad i'r Cae Pel-droed o'r Ysgol; Pont Capel Bryn; Y Fasged Fwyd; Tannau yn gerddi; Ffynnon Nans Lon Cim; Tir Comin ger Llys Hiraethog |
| Hydref | Llwybr Cim; Cwn peryglus; Goryrru; Perllan Gymunedol |
| Tachwedd | Tir ym meddiant y Cyngor Cymuned ardal Penbwlch; Cysgodfa Bws Penbwlch; |
| Rhagfyr | Perllan Gymunedol |
| Ionawr | Biniau halen |
| Chwefror | Blwch ffon Cilgwyn; Perllan Gymunedol; |
| Mawrth | Cynllun ARBED Insiwleiddio Cartrefi; Perllan Gymunedol; |

| Mis | Materion a Drafodwyd **Fron** |
|---|---|
| Ebrill | Mitars rhagdalu i'r siop; atgyweirio wal y cae peldroed; |
| Mai | Grid gwartheg; mitars rhagdalu i'r siop; atgyweirio wal y cae peldroed; |
| Mehefin | Dathlu diwrnod VE; Gwasanaeth rhoi gwaed yn y Ganolfan; Gwasanaeth torri gwair Cyngor Gwynedd |
| Gorffennaf | Cynllun plot llysiau a Gwelyau Blodau i'r Ganolfan; Mynedfa newydd i'r cae pel-droed o'r cae chwarae |
| Medi | Cysgodfa bws Y Fron; Mynedfa newydd i'r cae pel-droed o'r cae chwarae |
| Hydref | Gwartheg yn creu difrod i eiddo; |
| Tachwedd | Gwasanaeth gritio Cyngor Gwynedd |
| Rhagfyr | Beiciau modur anghyfreithlon yn creu aflonyddwch ar dir comin Uwch Gwyrfai a Mynydd Grug |
| Chwefror | Diffribiliwr Y Fron; Beiciau modur anghyfreithlon Grug |
| Mawrth | Beiciau modur anghyfreithlon |





# Gwaith yn Ein Pentrefi a Cefnogi'r Gymuned

| Mis | Rhai o'r Materion a Drafodwyd – Llandwrog |
|---|---|
| Ebrill | Gordyfiant coed cyffordd Ffrwd |
| Mai | Cefnogi I ddatblygu Parc Glynllifon. |
| Mehefin | Gorchymyn parcio, Bethesda Bach |
| Gorffennaf | Lloches bws Lon Cefn Glyn |
| Medi | Llwybrau cyhoeddus Cae Llywarch Bach, Coed Iwrch a Pont Cae Doctor Bach |
| Hydref | Cafn Dwr ger y Festri. |
| Tachwedd | Trwydded eiddo Menter Ty'n Llan |
| Rhagfyr | Diffribilwir Bethesda Bach. Cyfarfod gyda Carter Jonas I brynu tir i ymestyn y fynwent |
| Ionawr | Bin. halen ger Ffrwd |
| Chwefror | Llwybr Beics |
| Mawrth | Pario Bethesda Bach |

| Mis | Rhai o'r Materion a Drafodwyd Y Groeslon |
|---|---|
| Ebrill | Gosod planters blodau |
| Mai | Cynllun Lliniaru Llifogydd; Gosod planters |
| Mehefin | Difrodi i wal fynwent Bryn'rodyn; Palmant Llwyngwalch; Lôn Eifion |
| Gorffennaf | Cynllun Adeiladu Tai Fforddiadwy Tir Tyddyn Dafydd |
| Medi | Wal fynwent Bryn'rodyn; |
| Hydref | Anghenion Tai - Cyfarfod gyda Swyddogion ADRA; Cwn yn y fynwent; Difrod i cysgodfa bws ger Pennionyn; Llwybr Penrallt Cottages |
| Tachwedd | Seddi gwag ar y Cyngor i gynrychioli Ward Groeslon; |
| Rhagfyr | E-scooters yn y pentref; Ymddygiad gwrth gymdeithasol; Cynllun Tai Fforddiadwy; |
| Ionawr | Cyfarfod Cyhoeddus i drafod Ymgynghoriad I Adeiladu 12 tai fforddiadwy ar tir Tyddyn Dafydd; Lon Eifion; |
| Chwefror | Wal fynwent Bryn'rodyn |
| Mawrth | Tipio anghyfreithlon Ardal Penbonc |





# Gwaith yn Ein Pentrefi a Cefnogi'r Gymuned

| Mis | Rhai o'r Materion a Drafodwyd – Dinas Dinlle |
|---|---|
| Ebrill | Bryn Mor; Cynllun Atal Llifogydd |
| Mai | Gwaharddiad parcio ar y traeth. Bryn Mor |
| Rhagfyr | DiffribiliwrCynnal toiled y Marine. Gorchymyn parcio |
| Chwefror | Bryn Mor – addasrwydd yr adeilad I fod yn loches hunan gynahliol. Cynllun Atal Llifogydd |



# Rhoddion i Fudiadau Gwirfoddol

*pwerau dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – yr hawl i wario at ddibenion nad oes gan y Cyngor ddim pwerau penodol eraill ar eu cyfer os yw'r Cyngor o'r farn bod y gwariant er budd yr ardal neu unrhyw ran ohoni*

MENTER TY'N LLAN

llandwrog

Talwyd cyfanswm o **£10,320** i 27 o fudiadau yn amrywio o £100 i £1,500 (£8,135 i 23 mudiad yn 2024/25)




Rhoddwyd cyfraniad o £500 i Neuadd Carmel i sefydlu Cynllun Y Fasged Fwyd dros gyfnod yr Argyfwng Costau Byw.

AMBIWLANS AWYR CYMRU
WALES AIR AMBULANCE

YSGOL BRO LLIFON

LLEU

# Rhoddion i Fudiadau Gwirfoddol yn 2025/26


Cyngor Cymuned Llandwrog

Ffurflen Gais am Gymorth Ariannol i Fudiadau Gwirfoddol 2024-25

| Manylion Cyswllt | |
|---|---|
| Enw'r Mudiad | |
| Cyfeiriad (y sawl sydd yn gwneud y cais) | |
| Swyddogaeth (gyda'r Mudiad) | |
| Cyfeiriad e-bost | |
| Rhif ffôn | |

| Eich Mudiad | |
|---|---|
| Beth yn fras yw pwrpas y mudiad? | |

| Mudiad | Swm | | Mudiad | Swm |
|---|---|---|---|---|
| Y Fasged Fwyd,Carmel | £500.00 | | Dawns i Bawb | £100.00 |
| Dathlu Diwrnod VE Fron | £250.00 | | Seindorf Arian Frenhiniol Dyffryn Nantlle | £150.00 |
| Clwb Rygbi Caernarfon | £100.00 | | Clwb Gwawr Llandwrog | £100.00 |
| Ffair Nadolig Dinas Dinlle | £100.00 | | Cymdeithas Lenyddol Brynrhos | £150.00 |
| Menter Ty'n Llan Cyf | £800.00 | | Eisteddfod Y Groeslon | £220.00 |
| Ambiwlans Awyr Cymru | £200.00 | | Cylch Meithrin Carmel | £500.00 |
| Canolfan y Fron | £1,500.00 | | Cylch Meithrin Y Groeslon | £500.00 |
| Cwmni Drama'r Plant Anfradlon | £100.00 | | Band Seindorf Llanrug | £100.00 |
| Côf y Cwmwd | £100.00 | | Neuadd Pentref Carmel | £1,500.00 |
| Neuadd Bentref Y Groeslon | £1,500.00 | | Cylch Meithrin Dinas a Llanwnda | £300.00 |
| Lleu Dyffryn Nantlle | £400.00 | | Ffrindiau Ysgol Llandwrog | £300.00 |
| Sioe Y Groeslon (Carmel, Fron a Llandwrog) | £200.00 | | Ysgol Bro Llifon | £300.00 |
| Pwyllgor Pentref Carmel | £400.00 | | Ffeind Cyf | £300.00 |
| Merched Y Wawr Y Groeslon | £150.00 | | | |



# Rheoli Eiddo'r Cyngor



- **Mynwentydd**
- Mae'r Cyngor, yn ei rôl fel Awdurdod Claddu, yn gyfrifol am reoli tair mynwent yn Llandwrog, Carmel a Bryn'rodyn, yn ogystal â chynnal mynwent Hen Eglwys Sant Tomos yn y Groeslon. Yn ystod y flwyddyn, gweithredwyd rhaglen gynhwysfawr o waith cynnal a chadw, ynghyd â threfniadau torri gwair rheolaidd, er mwyn sicrhau bod y safleoedd yn cael eu cadw'n daclus ac mewn cyflwr addas.
- **Caeau Chwarae**
- Mae'r Cyngor yn cynnal dau gae pêl-droed, gyda rhaglen barhaus o waith cynnal a chadw a thorri gwair. Yn ystod 2025/26, cwblhawyd gwaith cynnal ar ffens cae Carmel, yn ogystal â gwaith ar y clawdd yn Fron.
- **Gwaith Atgyweirio a Gwelliannau**
- Yn ystod y flwyddyn, cyflawnwyd nifer o weithiau atgyweirio a gwelliannau, gan gynnwys adnewyddu llwybr ym mynwent Carmel ac atgyweirio hollt yng nghornel waelod Bryn'rodyn. Cynhaliwyd hefyd waith atgyweirio ar gysgodfeydd bws ar Lôn Cefn Glyn ac yng nghyffordd Cae Halen Bach. Yn ychwanegol, gwnaed gwaith pellach ar ffens cae pêl-droed Carmel. Adolygwyd ffioedd claddu ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2025 hyd 31 Mawrth 2026.
- **Diffibrilwyr**
- Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal saith diffibriliwr mewn lleoliadau strategol ar draws yr ardal, sef: Dinas Dinlle (1), Groeslon (4), Fron (y Ganolfan) a Carmel (y Neuadd).
- **Cysgodfeydd Bws**
- Mae'r Cyngor yn gyfrifol am 12 cysgodfa bws ar draws y gymuned: Fron (1), Carmel (3), Groeslon (3), Bethesda Bach (1), Llandwrog (3) a Dinas Dinlle (1). Mae rhaglen lanhau reolaidd ar waith i gynnal safonau'r cyfleusterau hyn. Yn ystod y flwyddyn, ariannwyd cysgodfa newydd ym Mhenbwlch, Carmel, drwy grant o £9,000 gan Bartneriaeth Gwynedd Ni.
- **Perllan Gymunedol**
- Mae'r Cyngor wedi sefydlu perllan gymunedol yng Ngharmel ac wedi ymrwymo i'w chynnal a'i datblygu'n flynyddol. Sicrheir bod trefniadau yswiriant atebolrwydd priodol mewn lle ar gyfer y safle

# Bioamrywiaeth a Tiroedd Comin





- Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Rhan 1 – Adran 6, yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i ystyried bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau ym mhob agwedd ar ei waith.
- Yn ystod 2025/26, mae'r Cyngor wedi cyflawni hyn drwy greu perllan gymunedol yn Carmel, cynnal dolydd gwair brodorol yn cae pêl-droed Y Fron, a chefnogi gwirfoddolwyr yn Groeslon i wella'r amgylchedd lleol.
- Sefydlwyd Fforwm Werdd Cymuned Llandwrog i hyrwyddo ymwybyddiaeth a gweithredu, ac mae cyllideb barhaol wedi'i neilltuo i gefnogi mentrau bioamrywiaeth. Defnyddir grantiau allanol yn llawn i ategu'r gwaith hwn, yn enwedig Grant Partneriaeth Gwynedd Werdd.
- Bydd y Cyngor yn parhau i ymgysylltu â'r gymuned drwy'r Fforwm a thrwy gynnig cymorth ariannol i grwpiau lleol.



# Bioamrywiaeth a Tiroedd Comin

- Y gwaith a bwriedir ei ymgymeryd yn 2026/27 i ddiwallu anghenion y Ddeddf  yw-
- Parhau i gefnogi grwpiau gwirfoddol i gynnal gweithgareddau a chyflawni prosiectau a nodwyd yng nghyfarfodydd y Fforwm Werdd.
- Datblygu’r berllan gymunedol yn Carmel drwy osod blychau nythu a phlannu mwy o goed ffrwythau
- Ymgysylltu â’r gymuned i gasglu syniadau ar gyfer hybu bioamrywiaeth, ac adnabod safleoedd addas i greu ardaloedd bywyd gwyllt a pherllannau cymunedol.
- Cefnogi grwpiau codi ysbwriel a thacluso gwirfoddol, ac annog mwy o gyfranogiad lleol.
- ***Tiroedd Comin Pentrefi*** - Mae’r Cyngor yn prynu gwasanaeth contractwr torri gwair i gynnal nifer o diroedd comin  yn ein pentrefi yn cynnwys Clwt Foty , Carmel, tir comin gyferbyn a hen Siop Doris , ynghyd a tiroedd yn Y Groeslon, Fron a Llandwrog.






# Gweinyddiaeth a Llywodraethu



- Mae'r Cyngor yn ymrwymo'n llwyr i weithredu'n unol â'i reolau sefydlog a'i bolisïau, gan gynnal safonau uchel o lywodraethu a sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r ddeddfwriaeth berthnasol ym mhob agwedd ar ei weithgarwch.
- Cyflogir un aelod o staff gan y Cyngor, sef Clerc y Cyngor, sy'n cyflawni dwy rôl ar wahân: Swyddog Rheolwr Gweinyddol a Swyddog Ariannol Cyfrifol. Mae'r Clerc yn gweithio ar gytundeb rhan-amser (14 awr yr wythnos)
- Yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26, talwyd lwfansau statudol o £156 a £52 y flwyddyn i 10 Cynghorydd. Gwrthododd y taliadau gan bedwar aelod.
- Talwyd cyfanswm o £1,220 mewn lwfansau presenoldeb i Gynghorwyr yn 2025/26. Nid yw'r taliadau hyn yn statudol, ond cânt eu dyfarnu ar ddisgresiwn y Cyngor, ar sail £10 am fynychu pob cyfarfod.
- Caiff pob cyfarfod o'r Cyngor llawn ei ffrydio'n fyw drwy Zoom er mwyn hwyluso mynediad cyhoeddus.
- Penodwyd Cyngor Gwynedd yn Archwilwyr Mewnol y Cyngor ar gyfer 2025/26. Ni chodwyd unrhyw bryderon mewn perthynas â chyfrifon ariannol na threfniadau llywodraethu'r Cyngor yn ystod yr archwiliad diweddaraf, sef cyfrifon 2024/25.
- Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar gyfer pob cyfarfod er mwyn sicrhau hygyrchedd ieithyddol.
- Yn ystod y flwyddyn, prynwyd gwasanaethau allanol fel a ganlyn: Aqua Marketing (Llandwrog) i reoli cynnwys tudalen Facebook y Cyngor; Cwmni Delwedd i reoli gwefan y Cyngor ; Whitton Computers i ddarparu a chynnal gwasanaethau TGCh y Cyngor.

# Pwyllgorau'r Cyngor

## Pwyllgor Gweithredu

***Cadeirydd yn 2025/26 – Cyng. Alan Patterson***

Bu i'r Pwyllgor gyfarfod ond un waith yn ystod 2025/26 oherwydd amgylchiadau penodol.

Pwrpas y Pwyllgor Gweithredol yw cefnogi gwaith y Cyngor Cymuned drwy oruchwylio materion gweithredol o ddydd i ddydd a gwneud penderfyniadau o fewn ei awdurdod dirprwyedig.

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am

- fonitro cynnydd gwaith a phrosiectau'r Cyngor,
- sicrhau darpariaeth effeithiol o wasanaethau lleol, a gwneud defnydd priodol o adnoddau.
- yn gyfrifol am gefnogi, goruchwylio a gwarchod gwaith y Clerc, gan fonitro perfformiad a sicrhau bod trefniadau priodol ar waith,
- cynnig cefnogaeth briodol i'r Clerc yn ei rôl.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn darparu arweiniad ac yn gwneud argymhellion i'r Cyngor llawn er mwyn sicrhau bod amcanion a blaenoriaethau'r gymuned yn cael eu cyflawni.

## Pwyllgor Cyllid

***Cadeirydd yn 2025/26 Cyng. David C Davies***

Bu i'r Pwyllgor gyfarfod 6 gwaith yn ystod 2025/26.

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn gyfrifol am oruchwylio a monitro trefniadau ariannol y Cyngor. Yn ystod y flwyddyn, mae'r pwyllgor wedi canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Monitro'r gwariant ac incwm drwy gydol y flwyddyn, gan sicrhau eu bod yn unol â'r gyllideb a gymeradwywyd.
- Sefydlu a chynnal cyllideb gytbwys er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol.
- Sicrhau llywodraethiant effeithiol a thryloyw o ran pob trefniant ariannol.
- Gweinyddu'r broses o ddosbarthu rhoddion ariannol i fudiadau gwirfoddol, gan gydymffurfio â'r meini prawf a bennwyd.
- Adolygu Rheolau Ariannol y Cyngor i sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn addas i'r diben.

Mae gwaith y pwyllgor yn parhau i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu o fewn fframwaith ariannol cadarn, gan ddarparu gwerth am arian i'r gymuned.

## Pwyllgor Mynwentydd ac Asedau

***Cadeirydd yn 2025/26***

Bu i'r Pwyllgor gyfarfod 3 gwaith yn ystod 2025/26.

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am oruchwylio a rheoli materion sy'n ymwneud â mynwentydd y Cyngor a gwaith cynnal a chadw tir ac aseadu lleol.

Yn ystod y flwyddyn, bu'r pwyllgor yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Goruchwylio a chynnal Mynwenydd y Cyngor gan gynnwys gwaith torri glaswellt, cynnal a chadw llwybrau, a monitro cyflwr y safle.
- Adolygu capasiti'r fynwent a monitro'r angen am estyniad posibl yn y dyfodol.
- Cydlynu gwaith cynnal a chadw a diogelwch ar draws holl asedau'r Cyngor, gan gynnwys llochesi bysiau, meinciau, biniau, a mannau cyhoeddus.
- Monitro cyflwr y diffibrilwyr cymunedol, gan sicrhau bod offer yn weithredol ac yn hygyrch.
- Cydweithio â swyddogion Cyngor Gwynedd ar faterion fel tocio coed, clirio llwybrau a gwaith cynnal a chadw ar dir cyhoeddus.
- Adolygu a diweddaru rhestr asedau'r Cyngor, gan sicrhau bod cofnodion yn gywir ac yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol.
- Goruchwylio prosiectau gwella asedau, megis gosod neu adnewyddu llochesi bysiau, arwyddion neu gyfleusterau cymunedol.
- Ymateb i faterion a godwyd gan drigolion sy'n ymwneud ag asedau neu fynwent, gan gynnwys pryderon diogelwch neu gynnal a chadw.

# Cynrychioli Eich Cymuned

Mae aelodau'r Cyngor a'r Clerc yn cynrychioli'r gymuned ar amrywiaeth o sefydliadau gwirfoddol, yn lleol ac yn ehangach. Mae hyn yn cyfrannu at gryfhau cysylltiadau o fewn y gymuned ac yn sicrhau bod llais y gymuned yn cael ei glywed mewn gwahanol fforymau. Ceir rhestr o rai o'r sefydliadau hyn ar y dde.

- Grŵp Cyswllt Chwareli Moel Tryfan
- Pwyllgor Ardal Arfon / Dwyfor Un Llais Cymru
- Ardal Ni
- Aelodau'r Cyngor yn aelodau gweithgar o Ganolfan y Fron, Neuadd Carmel, Neuadd Groeslon, Tyn Llan Cyf, Genod Llan, Cymdeithas y Porwyr, Cynghrair Snwcer Bangor a'r Cylch,
- Yn cydweithio gyda Chyngor Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru ar Brosiect Gwerthuso Perygl Llifogydd o Ddinas Dinlle i Fae'r Foryd:
- Fforwm Neuadd a Chanolfannau Dyffryn Nantlle
- Corff Llywodraethu Ysgolion Llandwrog a Bro Llifon

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Ymgysylltu Gyda'r Gymuned






- Mae'r Cyngor yn ymrwymo i sicrhau cyfathrebu clir, tryloyw ac effeithiol gyda thrigolion y gymuned, gan ddefnyddio amrywiaeth o sianeli i hwyluso ymgysylltiad eang.
- **Gwefan** – www.cyngorcymunedllandwrog.cymru - Cofnodwyd 71,709 o ymweliadau â'r wefan yn ystod y 12 mis hyd at 31 Mawrth 2025, gan ddangos lefel gadarn o ymgysylltiad digidol.
- **Rhaglenni a Chofnodion -** Cyhoeddir rhaglenni a chofnodion pob cyfarfod o'r Cyngor ar y wefan o fewn 7 diwrnod i ddyddiad y cyfarfod, gan sicrhau tryloywder ac atebolrwydd.
- **Papur Bro -** Cyhoeddir adroddiad misol ar weithgareddau'r Cyngor yn *Papur Bro Lleu*, gan gyrraedd cynulleidfa leol ehangach.
- **Cyfryngau Cymdeithasol -** Rheolir tudalen Facebook y Cyngor yn broffesiynol. Mae'r Cyngor yn gweithio'n barhaus i gynyddu nifer y dilynwyr a lefel yr ymgysylltu, ac yn croesawu adborth gan y cyhoedd.
- **Hysbysfyrddau'r Pentrefi -** Defnyddir hysbysfyrddau lleol i rannu gwybodaeth berthnasol yn rheolaidd, gan sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r rhai nad ydynt yn defnyddio dulliau digidol.
- **Cyfranogiad y Cyhoedd -** Rhoddir cyfle i aelodau'r cyhoedd gyflwyno sylwadau neu gwestiynau ar ddechrau pob cyfarfod. Darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ym mhob cyfarfod i hwyluso cyfranogiad eang.
- **Cyfarfodydd Byw -** Darlledir pob cyfarfod o'r Cyngor llawn yn fyw drwy Zoom, gan wella mynediad a thryloywder i'r cyhoedd.
- **Ymgysylltu Cymunedol -** Yn ystod 2024, cynhaliwyd cyfarfodydd cyhoeddus ym mhob pentref fel rhan o'r Fforwm Werdd, gan gasglu mewnbwn gwerthfawr gan drigolion i gefnogi mentrau bioamrywiaeth. Yn ogystal, cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn Y Groeslon ym mis Chwefror i drafod cais ymgynghori cynllunio






# Ceisiadau Cynllunio

**Cynllunio – Sut mae'n Gweithio**
Mae Cyngor Cymuned Llandwrog yn rhan o'r broses gynllunio fel ymgynghorai statudol. Mae hyn yn golygu bod Cyngor Gwynedd yn ein hysbysu o bob cais cynllunio a newidiadau perthnasol o fewn y plwyf. Er bod y Cyngor yn cael cyfle i wneud sylwadau, rydym yn gwneud hynny yn yr un ffordd ag unrhyw aelod o'r cyhoedd. Mae'n rhaid i bob sylw gael ei drafod a'i gytuno mewn cyfarfod swyddogol o'r Cyngor.

**Cyfranogiad y Cyhoedd**
Mae croeso i aelodau'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd y Cyngor.
Gallwch fynegi barn, cefnogi neu wrthwynebu cais cynllunio
Gwneir hyn yn ystod y yr eitem Cyfranogiad y Cyhoedd ar ddechrau'r cyfarfod
Nid oes modd siarad yn ystod trafodaethau ffurfiol y Cyngor wedyn

**Sut mae Penderfyniadau'n Cael eu Gwneud**
Cyn pob cyfarfod:
Mae aelodau'r Cyngor yn astudio'r cynlluniau a'r dogfennau perthnasol
Gellir ymgynghori â chyrff arbenigol megis asiantaethau amgylcheddol a phriffyrdd
Ar ôl trafod: Cytunir ar sylwadau'r Cyngor mewn cyfarfod cyhoeddus
Caiff y sylwadau hyn eu cyflwyno'n ysgrifenedig gan Glerc y Cyngor i'r awdurdod cynllunio

**Pwynt Pwysig**
**Mae'n bwysig cofio mai un ymgynghorai yn unig yw'r Cyngor Cymuned, ac felly dim ond un farn ymhlith nifer yw ein cyfraniad i'r broses benderfynu**


- Nifer ceisiadau cynllunio yn ein Cymuned a fu gerbron y Cyngor am sylwadau yn y cyfnod
- **23** **(46 yn 2024/25)**




CYNGOR GWYNEDD

# Ystadegau 2025/26

- Nifer cyfarfodydd o'r Cyngor Llawn **12** **(11 yn 2024/25)**
- Nifer cyfarfodydd cyhoeddus **1** **(0 yn 2024/25)**
- Nifer Cyfarfodydd Pwyllgorau/Paneli/Gweithgorau **10** **(22)**
- Nifer Cyrsiau a fynychwyd gan aelodau a staff **6** **(14)**
- Nifer y cwynion a dderbyniwyd **0** **(0)**
- Aelodau Newydd yn y cyfnod **2** **(0)**
- Ymddiswyddiadau yn y cyfnod **0** **(0)**
- Nifer claddedigaethau yn ein mynwetydd **10** **(15)**
- Nifer dilynwyr Facebook **213**
- Nifer ymweliadau unigryw i wefan y Cyngor **40,066**







# Sefyllfa Ariannol y Cyngor 2025/26

| | 2025/26 | 2024/25 |
|---|---|---|
| Gwariant | **£97,924** | £93,246 |
| Llai - Incwm o'r Praesept (Treth y Cyngor) | **(£82,640)** | (£78,600) |
| Llai - Incwm (trwy Ffioedd a Grantiau) | **(£18,182)** | (£6,393) |
| Gor (Tan) wariant | **(£2,898)** | £8,253 |
| Balansau ar gychwyn y flwyddyn 1/4/2025 | **£17,577** | £25,830 |
| Balansau diwedd y flwyddyn ar 31/3/2026 | **£20,475** | £17,577 |
| Dyled y Cyngor diwedd y flwyddyn (31/3/2026 ) | **£82,101** | £90,201 |

(Tri benthyciad tymor hir 1) Prynu tir ym Mryn'rodyn yn 2003 am £15,500; 2) Gwaith ar Llwybrau mynwentydd yn 2006 £65,000 a 3) datblygu mynwnet Bryn'rodyn yn 2014 £100,000.





# Gwariant ac Incwm 2025/26

| Pennawd | Y Gyllideb Agoriadol | Symudiadau Net o Cronfeydd | Y Gyllideb Terfynol | Gwariant ac Incwm Terfynol | Gor neu (Tan) Wariant |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweinyddiaeth | £31,910 | £1,414 | £33,324 | £30,455 | -£2,869 |
| Rhoddion i Fudiadau Gwirfoddol | £12,000 | £0 | £12,000 | £10,820 | -£1,180 |
| Cynnal Mynwentydd, Tiroedd ac Asedau'r Cyngor | £26,320 | £500 | £26,820 | £40,817 | £13,997 |
| Benthyciadau (Ad-daliad blynyddol i'r PWLB) | £11,420 | £0 | £11,420 | £11,428 | £8 |
| Partneriaethu (Cadw toiled Y Marine, Dinas Dinlle ar agor) | £4,000 | £0 | £4,000 | £4,000 | £0 |
| Diffribilwyr | £1,500 | -£1,000 | £500 | £403 | -£97 |
| Datblygiadau/Eraill | £1,000 | -£547 | £453 | £0 | -£453 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **£88,150** | **£367** | **£88,517** | **£97,924** | **£9,406** |
| Incwm Ffioedd Claddu | -£4,150 | £0 | -£4,150 | -£3,294 | £856 |
| Incwm trwy Grantiau | -£860 | £0 | -£860 | -£13,682 | -£12,822 |
| Incwm Amrywiol | £0 | £0 | £0 | -£626 | -£626 |
| Llogau Banc | -£500 | £0 | -£500 | -£580 | -£80 |
| **Cyfanswm Incwm** | **-£5,510** | **£0** | **-£5,510** | **-£18,182** | **-£12,672** |
| **Gwariant Net** | **£82,640** | **£367** | **£83,007** | **£79,742** | **-£3,265** |

# Rhaglen Waith 2026/27




- **Ein Blaenoriaethau ar gyfer y Flwyddyn Nesaf**
- Dros y flwyddyn nesaf, bydd y Cyngor yn canolbwyntio ar wella'r ffordd rydym yn gweithio a'r gwasanaethau rydym yn eu darparu i chi.
- Byddwn yn adolygu sut rydym yn defnyddio e-byst, ein trefniadau bancio, a'n dulliau gwneud penderfyniadau, er mwyn sicrhau ein bod yn gweithio'n glir, yn ddiogel ac yn effeithiol. Byddwn hefyd yn edrych ar sut rydym yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gadw mewn cysylltiad gwell â'r gymuned.
- Bydd cydweithio yn parhau i fod yn bwysig iawn, a byddwn yn gweithio'n agos gydag asiantaethau eraill i wella gwasanaethau a chefnogi llesiant pobl leol.
- **Gofalu am Ein Hasedau**
- Byddwn yn gweithio i sicrhau bod asedau'r Cyngor yn cael eu cynnal a'u defnyddio'n dda ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys:
- Cynllunio'n hirdymor ar gyfer rheoli asedau ; Parhau i geisio ymestyn Mynwent Llandwrog ; Gwella a chynnal y gysgodfan bws yn Y Fron ; Gosod mwy o ddiffibrilwyr yn y gymuned ; Sicrhau bod mynwentydd yn ddiogel trwy archwiliadau rheolaidd
- **Cefnogi Ein Pentrefi**
- Byddwn yn parhau i wrando ar eich pryderon a gweithredu ar faterion lleol yn cynnwys:
- **Y Fron:** Gweithio i fynd i'r afael â phroblemau beiciau modur ar dir comin ; gwella delwedd y pentref
- **Carmel:** Cefnogi cynlluniau i wneud cartrefi'n fwy ynni-effeithlon a datblygu'r perllan gymunedol a gwella'r ffyrdd
- **Groeslon** Sicrhau bod llais y gymuned yn cael ei glywed ar faterion datblygu tai
- **Llandwrog** Parhau i gynnal trafodaethau ynghylch ymestyn y fynwent, gan barhau i gefnogi'r pentref a'i anghenion yn y dyfodol.atblygu'r fynwent; cefnogi I'rr pentrefymgyrch taimryd camau i leihau risg llifogydd
- **Dinas Dinlle** Mynd i'r afael â llifogydd; monitro effaith newidiadau i barcio ar y traeth; gwthio am wybodaeth ynglyn Bryn Mor
- **Ein Hymrwymiad**
- *Ein nod yw gweithio'n agored, gwrando ar y gymuned, a gwneud penderfyniadau sy'n gwella ansawdd bywyd i bawb yn yr ardal.*

# Lwfansau Aelodau 2025/26

**Taliadau i Aelodau**
Yn ystod y flwyddyn, gweithredodd y Cyngor yn unol â phenderfyniadau'r Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, fel sy'n ofynnol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Mae Cyngor Cymuned Llandwrog wedi ei ddosbarthu fel Cyngor Grŵp 4 (etholaeth o 1,000 i 4,999). Yn unol â'r canllawiau, talwyd y lwfansau canlynol i aelodau:

- £156 y flwyddyn – taliad costau (gorfodol)
- £52 y flwyddyn – ad-daliad nwyddau traul (gorfodol)
- £10 y cyfarfod – lwfans presenoldeb (dewisol; uchafswm o £30)

Nid oes angen darparu derbynebau ar gyfer y taliadau hyn, ac maent wedi eu heithrio gan HMRC.

Roedd gan aelodau'r hawl i wrthod y taliadau hyn drwy hysbysu'r Clerc yn ysgrifenedig.
Ni dalwyd unrhyw lwfansau ychwanegol i aelodau am gyfrifoldebau arbennig (megis Cadeirydd neu Is-gadeirydd).

# Lwfansau Aelodau 2025-26

| Enw'r Cynghorydd | Lwfans Mandadol am gostau ychwanegol gweithio gartref (£156 i pob aelod) | Lwfans Mandadol penodol am nwyddau traul (£52 i pob aelod) | Lwfans Presenoldeb (£10 am pob cyfarfod mynychwyd) | Cyfanswm / Total |
|---|---|---|---|---|
| Cyng. Gwyn Owen Jones | £156.00 | £52.00 | £210.00 | £418.00 |
| Cyng. Eddie Willcox | £156.00 | £52.00 | £120.00 | £328.00 |
| Cyng. Alan Patterson *Nodyn 1* | £156.00 | £52.00 | £0 | £208.00 |
| Cyng. Bryn Williams *Nodyn 2* | 0 | 0 | £0 | 0 |
| Cyng. Kim Lamerick | £156.00 | £52.00 | £140.00 | £348.00 |
| Cyng. Hywel J Owen *Nodyn 3* | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyng. Alun Wyn Jones | £156.00 | £52.00 | £30.00 | £238.00 |
| Cyng. David C Davies | £156.00 | £52.00 | £170.00 | £378.00 |
| Cyng. Bethan Mair Williams | £156.00 | £52.00 | £130.00 | £338.00 |
| Cyng. Sion Hywyn Griffiths | £156.00 | £52.00 | £110.00 | £318.00 |
| Cyng. Emily Birch *Nodyn 4* | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyng. Vicky Birch *Nodyn 5* | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyng. Clive Bayley | £156.00 | £52.00 | £110.00 | £318.00 |
| Cyng. Dyfed Williams | £156.00 | £52.00 | £30.00 | £238.00 |
| Cyng. Marnel Pritchard | £156.00 | £52.00 | £170.00 | £378.00 |
| **Cyfanswm y Taliadau** | **£1,716.00** | **£572.00** | **£1,220.00** | **£3,508.00** |

**Nodyn 1 – Cyng. Alan Patterson – ni wnaeth hawlio – y lwfans presenoldeb (cyfwerth a £170)**

**Nodyn 2 – Cyng. Bryn Williams – ni wnaeth hawlio lwfansau–**

**Nodyn 3 – Cyng. Hywel J Owen – ni waneth hawlio**

**Nodyn 4 – Cyng. Vicky Birch – ni wnaeth hawlio**

**Nodyn 5 Cyng. Emily Birch – ni wnaeth hawlio**

*Yn unol ag Adran 151 Mesur Llywodraeth Leol 2011, rhaid i Gynghorau Cymuned gyhoeddi o fewn ardal ei hawdurdod y gydnabyddiaeth ariannol sydd wedi'i derbyn gan eu haelodau am y flwyddyn ariannol blaenorol. Mae'r wybodaeth yn cael ei hanfon at Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol erbyn 30ain Medi bob blwyddyn.*

# Cynllun Hyfforddi Aelodau a Staf

**Cynllun Hyfforddiant y Cyngor Cymuned**
Mae Adran 67 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i lunio a chyhoeddi cynllun hyfforddi ar gyfer cynghorwyr a staff.
Pwrpas y cynllun yw sicrhau bod gan y Cyngor y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i weithredu'n effeithiol.


**Mae gan y Cyngor 14 o aelodau, sy'n cynnwys cymysgedd o unigolion profiadol ym maes llywodraeth leol a'r sector cyhoeddus, unigolion sy'n rhedeg busnesau, ac aelodau sy'n arwain prosiectau cymunedol a mudiadau gwirfoddol yn eu hardaloedd. Mae gan yr aelodau arbenigedd mewn amryw o feysydd sy'n berthnasol i waith y Cyngor, megis Iechyd a Diogelwch a rheoli mynwentydd, ynghyd ag aelodau newydd sydd heb brofiad blaenorol ym maes llywodraeth leol.**

Bwriedir cynnal asesiad o anghenion hyfforddi yn ystod y flwyddyn, a bydd hyn yn rhan o arfarnu aelodau a staff.

Mae'r meysydd blaenoriaeth yn cynnwys:

- Anwytho sylfaenol
- Y Côd Ymddygiad
- Rheolaeth ariannol a llywodraethu

Yn ystod 2025/26, mynychodd tri o aelodau a staff 6 o gyrsiau hyfforddi a drefnwyd gan Un Llais Cymru.






# Eich Cynrychiolwyr – Ward Y Fron

## nifer seddau 2

- **Cynghorydd Gwyn Owen Jones** Bodwyn, Y Fron, LL54 7RB   Rhif ffôn 01286 881138 neu 07903 333260. **Yn aelod ers Chwefror 1997** gk.emjones@btinternet.com

- **Cynghorydd Edward John Willcox** Noddfa, Y Fron LL54 7BB   Rhif ffôn 07919 914483 **Yn aelod ers Mai 2017** eddiewillcox@btinternet.com

# Eich Cynrychiolwyr – Ward Carmel

## nifer seddau 3

- **Cynghorydd Alan Patterson** Bryn Llifon, Carmel, LL54 7RW Rhif ffôn 01286 881843 neu 07989 906704 **Yn aelod ers Hydref 1995** hengop@btinternet.com

- **Cynghorydd Bryn Williams** Dafarn Dywyrch, Llandwrog Uchaf, LL54 7RA Rhif ffôn 01286 831378 neu 07583 517852. **Yn aelod ers Ebrill 1997**

- **Cynghorydd. Kim Lamerick** Bryn Awel, Carmel LL54 7RY Rhif ffôn 07789 746651 **Yn aelod ers Medi 2023** kim.lamerick0501@btinternet.com

# Eich Cynrychiolwyr – Ward Y Groeslon – nifer seddau 6

- **Cynghorydd Vicky Birch**, Groeslon LL54 7TD Rhif ffôn 01286 830911 **Yn aelod ers Ionawr 2026** vicky.birch7@hotmail.co.uk
- **Cynghorydd Hywel John Owen** Sycharth, Cae Sarn, Y Groeslon LL54 7TW Rhif ffôn 01286 830066 neu 07979 985149 **Yn aelod ers Medi 1983.** hywelsycharth@gmail.com
- **Cynghorydd David C Davies** Bodarfryn, Dolydd, Y Groeslon LL54 7EF Rhif ffôn 07836 325195 **Yn aelod ers Mehefin 2017** davidcdavies@btinternet.com

# Eich Cynrychiolwyr – Ward Y Groeslon

- **Cynghorydd Bethan Mair Williams**, Arddol, Y Groeslon LL54 7EF Rhif ffôn 07879 338023 **Yn aelod ers Mai 2023** **bethan.mair@tiscali.co.uk**

- **Cynghorydd Sion Hywyn Griffiths** Arlwyn, 2 Rhes Grugan, Y Groeslon LL54 7TD Rhif ffôn 07720 569795 **Yn aelod ers Mai 2022** **sion-griffiths@hotmail.co.uk** **Cadeirydd y Cyngor**

- **Cynghorydd Emily Birch** Y Groeslon LL54 7TD Rhif ffôn 07720 569795 **Yn aelod ers Ionawr 2026** **emily.birch1@hotmail.co.uk**

# Eich Cynrychiolwyr – Ward Llandwrog/Dinas Dinlle    nifer seddau **3**

- **Cynghorydd Clive Bayley** Ty Clen, 1 Gernant, Bethesda Bach LL54 5SJ   Rhif ffôn 07967 794002  **Yn aelod ers Mehefin 2017**   clivebayley@btinternet.com.  **Cadeirydd Pwyllgor Mynwentydd ac Asedau.**
- **Cynghorydd Dyfed Williams** Bwthyn Henryd. Llandwrog LL54 5TN  Rhif ffôn 01286 831290 neu  07772 819189 **Yn aelod ers Mai 2012**  **dyfed.williams@btinternet.com**
- **Cynghorydd Marnel Pritchard** Llain yr Eglwys, Llandwrog LL54 5TA   Rhif ffôn 01286 830993 **Yn aelod ers Chwefror 2020**   **marnelp@btinternet.com.**

# Cysylltu gyda eich Cyngor

## Clerc y Cyngor (Swyddog Gweinyddol a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol y Cyngor) ers Mehefin 2006



- **David Roberts, Bryn Meurig, Carmel , Caernarfon Gwynedd LL54 7DS**
- Rhif Ffôn **01286 881920** neu **07796 024288**
- E-bost **rheolwr@cyngorcymunedllandwrog.cymru**
- Gwefan y Cyngor

  **www.cyngorcymunedllandwrog.cymru**
- Oriau Busnes y Cyngor – cytundeb **rhan amser** sydd gan y Clerc ond gellir cysylltu gyda ef naill a i trwy e-bost, dros y ffôn, llythyru neu gartref unrhyw adeg. Cofiwch y gellir cysylltu gyda eich Cynghorwyr Cymuned ac hefyd eich Cynghorydd Sirol

# Eich Cynghorwyr Sir



- Yn cynrychioli Ward Y Groeslon gan **Llio Elenid Owen** yn gwasanaethu trigolion Y Groeslon, Llandwrog a Dinas Dinlle
  **Ffôn** 07887 956253
  **ebost** cynghorydd.llioelenidowen@gwynedd.llyw.cymru

- Yn cynrychioli Ward Tryfan gan **Arwyn Herald Roberts** yn gwasanaethu trigolion Y Fron a Carmel
  **Ffôn** 07831448216
  **ebost** cynghorydd.arwynherald@gwynedd.llyw.cymru

